**CYFARFOD Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 20 CHWEFROR 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion y CFfDLG a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwy-ydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:00

**Ymddiheuriadau:** Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

**1. Datgan Buddiannau**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Brîff gan y Cadeirydd**

2.1. Amlinellodd y Cadeirydd y prif bwyntiau a gododd o'r cyfarfod rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Comisiwn ar 14 Chwefror 2018, ac o'r seminar a gynhaliwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar yr un diwrnod.

2.2. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn hefyd am gyfarfod a fynychodd ef a'r Prif Weithredwr gyda Tracey Burke, sef Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am Is-adran Noddi'r Comisiwn. Cytunwyd adolygu'r Ddogfen Fframwaith mewn cyfarfod o'r Comisiwn yn y dyfodol, i gynnwys datblygiadau diweddar, fel TGCh. Dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod fod Angharad Thomas Richards wedi cael ei phenodi'n olynydd i Frank Cuthbert fel Pennaeth y Tîm Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol yn yr Is-adran Noddi.

**3. Cofnodion Cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2018**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2018 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 12 Chwefror 2018 ar Faterion yn Codi gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd, gan nodi mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r materion canlynol hefyd:

- **(Mater 3)** Strategaeth TG – Rhoddwyd diweddariad llafar gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi cytuno ar gynllun a llinell amser gyda Chymwysterau Cymru ar gyfer trawsnewid y systemau TG, a bydd cynllun prosiect yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- **(Mater 4)** Llety – Mae trafodaethau ynglŷn â'r brydles newydd yn parhau. Mawrth 2018. Cytunwyd awdurdodi'r Prif Weithredwr i benderfynu ar delerau terfynol y brydles, a'r manylion ariannol canlyniadol, o fewn yr amodau a sefydlwyd hyd yma.
- **(Mater 5)** Llety – Mae achos busnes yn cael ei lunio ar gyfer y goleuadau newydd ac mae'r gwaith o addurno'r swyddfa wedi dechrau.
- **(Mater 6)** Arweiniad ar Arolygon Cymunedol – Mae copi o'r ddogfen gytunedig wedi cael ei anfon at Lywodraeth Cymru i wneud sylwadau arno cyn ei gyhoeddi. Mawrth 2018.

## 5. Y Comisiwn yn Bodloni ei Gylch Gorchwyl

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Chwefror 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

5.2. Nododd y Comisiwn yr adroddiad a **Chytuno** ar y cylch gorchwyl ar ôl gwneud mân newidiadau.

## 6. Rheoli Risg – Cofrestr Risg

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Chwefror 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. Nododd y Comisiwn yr adroddiad a **Chytuno** ar y gofrestr ar ôl gwneud mân newid i'r cam gweithredu lliniarol ynglŷn ag ymarfer recriwtio Llywodraeth Cymru/ Swyddfa'r Cabinet yn y dyfodol ar risg CR2.

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Chwefror 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Nododd a **Chytunodd** y Comisiwn ar y bwriad i drosglwyddo arian rhwng categorïau'r gyllideb.

7.3. O ystyried y tanwariant amcangyfrifedig ar y gyllideb flynyddol, **Cytunodd** y Comisiwn i ildio £20,000 arall o Gymorth Grant yn ôl i is-adran noddi Llywodraeth Cymru.

7.4. Bydd y Swyddog Cyllid a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn cymharu'r gyllideb ragamcanol â'r gwariant gwirioneddol fel bod ceisiadau am gyllid yn y dyfodol yn adlewyrchu'r gwariant gwirioneddol yn agosach.

## 8. Ymgynghoriad Swyddfa Archwilio Cymru: Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Chwefror 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. Nododd y Comisiwn yr adroddiad a **Chytuno** ar ymateb ymgynghori i'w gyflwyno cyn diwedd yr ymgynghoriad ar 26 Mawrth 2018.

## 9. Arolwg Etholiadol Torfaen

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Chwefror 2018 gan y Swyddog Arolygon.

9.2. **Cytunodd** y Comisiwn ar yr adroddiad, yn amodol ar rai mân newidiadau.

9.3. **Enwau wardiau arfaethedig**. Rhoddwyd ystyriaeth i restr o enwau yr oedd Comisiynydd y Gymraeg wedi awgrymu dewisiadau amgen ar eu cyfer. Yn achos Blaenafon; Coed Efa; Dwyrain Llanyrafon a Phont-hir; Panteg; St. Dials; Trefddyn a Phen-y-garn; Cwmbrân Uchaf; a Waunfelin, **Cytunwyd** cadw'r sillafiadau fel y'u defnyddiwyd yn y Gorchymyn/Gorchmynion perthnasol. O ran Pont-y-pŵl, bydd angen cyfeirio'r mater yn ôl at Gomisiynydd y Gymraeg, oherwydd penderfynwyd defnyddio enw'r gymuned – Pont-y-moel – fel enw'r ward etholiadol.

## 10. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Chwefror 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

10.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a rhoddodd y Comisiynwyr Arweiniol adborth ar y cyfarfodydd diweddar gyda'r Arweinwyr Grŵp yng Ngheredigion a Gwynedd ynglŷn â'r Cynigion Drafft.

## 11. Calendr Digwyddiadau

11.1. Nododd y Comisiwn y calendr.

## 12. Unrhyw Fusnes Arall

12.1. Trafodwyd y newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethu a noddi yn Llywodraeth Cymru, yn sgil y cynnig i greu Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus y byddai'r Comisiwn yn atebol iddo. Gwahoddwyd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i weithdy yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar 15 Mawrth, a bydd adroddiad ar y trafodaethau'n cael ei roi i gyfarfod nesaf y Comisiwn.

12.2. Derbyniwyd cais gan Gomisiynau Ffiniau'r Alban yn gofyn i gyfarfod Rhyng-Gomisiwn 2018 gynnwys enghreifftiau o arfer gorau a chydweithio, ac i eitemau agenda posibl gael eu hanfon ymlaen ato/atynt.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 27 Mawrth 2018**